**COFNODION PWYLLGOR MWYNDERAU A GYNHALIWYD AR 17 MEHEFIN 2024**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Morwenna Pugh, Cadeirydd

Marc Lloyd Griffiths

Mark Thomas

Troy Maclean

Peter Jones

Gareth Davies

Dafydd Dafis

Geoffrey Jones

David Meirion Jones

Linda Ann Jones (ar Zoom)

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

Sioned Graham-Cameron, Clerc

Hywyn Williams, Cydlynydd y Bartneriaeth Natur Leol

DRAFT

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Rory Francis ac Eifiona Davies.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Adroddwyd gan y cynghorwyr bod cais wedi dod i blant gael peintio bin yn y Berllan, a bod cais wedi ei dderbyn am gael gosod plac coffa yn Y Parc. Roedd aelodau'r cyhoedd hefyd wedi holi pryd yr oedd baner Llydaw yn dod i lawr a'r Ddraig Goch yn mynd yn ôl i fyny.

Cynigiodd Y Cynghorydd Troy Maclean ac eiliodd Y Cynghorydd Gareth Davies bod y plant yn cael peintio bin yn y Berllan a chytunodd pawb.

Cynigiodd Y Cynghorydd Troy Maclean ac eiliodd Y Cynghorydd Gareth Davies bod caniatâd yn cael ei roi i osod plac coffa yn y Parc.

Dywedodd Y Cynghorydd Peter Jones y byddai ef yn gofalu am y faner.

**4. Hywyn Williams**

Anerchodd Hywyn Williams, Cydlynydd y Bartneriaeth Natur Leol y cyfarfod. Dywedodd ei fod yn gyfarwydd â'r ardal gan iddo weithio ym Mhlas Tanybwlch ar un adeg. Dywedodd bod swm calonogol o arian ar gael ar gyfer natur a bioamrywiaeth. Dywedodd ei bod yn ofynnol i bob Cyngor adrodd yn ôl ar y tiroedd y maent yn gyfrifol amdanynt. Ar raglen eleni roedd Cymorth i Gynghorau wneud y gwaith ticio bocsys i adrodd am waith bioamrywiaeth y

Cyngor. Soniodd am amrywiol brosiectau ledled yr ardal ac amserlenni torri gwair yn gyffredinol, er mwyn helpu natur a bioamrywiaeth.

Soniodd Y Cynghorydd Linda Ann Jones am y gwair a oedd wedi gordyfu ar Ben y Bryn, Llan Ffestiniog a Mynwent Llan.

Dywedodd Hywyn y gallai ddychwelyd i weld y Cyngor Tref yng nghyfarfod mis Medi a diolchodd y Cynghorwyr iddo am ei amser a'i gyflwyniad.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau a gynhaliwyd ar 20fed Mai 2024. Roedd un cywiriad, sef mai'r Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths a oedd yn y gadair. Yn amodol ar y newid hwnnw, cynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean y dylid derbyn y cofnodion a chytunodd pawb.

**6. Caeau Chwarae**

Cyflwynwyd adroddiad arolygiad misol y caeau, a derbyniwyd yr adroddiad. Nododd Y Cynghorydd Mark Thomas bod angen torri gwrych y Parc, a'i bod yn bwysig pwysleisio'r darn rhwng y gwrych a'r ffens. Byddai'r gwaith yn costio £2,200.

**7. Llwybrau Cerdded**

Roedd pum cais wedi eu derbyn ar gyfer y swydd Cerddwr Llwybrau. Ar ôl ystyried y ceisiadau, a oedd wedi eu cyflwyno iddynt yn ddi-enw, cynigiodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y swydd yn cael ei chynnig i gais rhif 5,a chytunodd pawb.

**8. Adroddiad ar Waith y Swyddog Cynnal a Chadw**

Cyflwynwyd adroddiad ar waith y Swyddog Cynnal a Chadw, a derbyniwyd yr adroddiad.

**9. Gŵyl Hwyl yn y Parc 2024 – Diweddariad**

Cyflwynwyd adroddiad ar y cynnydd yn y gwaith paratoi ar gyfer y penwythnos ym mis Awst.

**10. Tir o Amgylch Sgwâr Oakeley**

Adroddwyd bod coed wedi gordyfu o amgylch y sgŵar a bod un wedi ei thorri gan aelod o'r cyhoedd. Cynigiodd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths ac eiliodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones bod llythyr yn cael ei anfon at holl drigolion yr ardal yn pwysleisio nad oedd ganddynt yr hawl i dorri coed ac mai'r cam cywir fyddai cysylltu gyda'r Cyngor Tref, a chytunodd pawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.17pm

DRAFT